

## Seddi Gwag Rhatach - Ffeithlen

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n gymwys i deithio am ddim rhwng eu cartref a'r ysgol dan y polisi presennol. Er mwyn gwneud hyn, mae bysiau, bysiau mini a thacsis yn cael eu caffael yn arbennig ar gyfer cludiant i'r ysgol, ac mae'r rhwydwaith cludiant yn cael ei gynllunio i redeg yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i wasanaethu'r disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant am ddim.

Gellir gwerthu unrhyw seddi gwag ar y cludiant i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i deithio am ddim. Gelwir y lleoedd hyn yn Seddi Gwag Rhatach.

Mewn rhai achosion, mae disgyblion sy'n gymwys i deithio am ddim yn cael tocyn teithio i'w ddefnyddio ar wasanaethau bysiau lleol. Nid yw'r Seddi Rhatach ar gael ar wasanaethau bysiau lleol, ond caiff disgyblion nad ydynt yn gymwys i deithio am ddim deithio ar y gwasanaethau hyn drwy dalu am docyn priodol.

Ni ellir gwarantu seddi rhatach. Gellir eu tynnu'n ôl (a rhoi ad-daliad) os oes angen y sedd honno yn nes ymlaen ar gyfer disgybl sy'n gymwys i gael sedd am ddim. Nid yw'r rhwydwaith cludiant wedi'i gynllunio er mwyn gallu creu seddi gwag i ateb y galw. Mae'r gwasanaethau cludiant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a gellir diddymu gwasanaethau os nad oes digon o blant cymwys yn teithio.

Mae disgwyl i rieni wneud eu trefniadau eu hunain i sicrhau bod eu plentyn yn teithio i'r ysgol ac yn ôl adref, ac mae angen iddynt sicrhau bod ganddynt drefniadau eraill os na allant gael sedd ratach neu os nad ydynt yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol am ddim.

Nid oes llawer o seddi rhatach ar gael ar gerbydau dan gontract, felly os bydd plentyn sy'n gymwys angen y sedd honno yn y dyfodol, efallai y bydd rhaid tynnu sedd ratach plentyn yn ôl ar fyr rybudd. Gellir newid manylion llwybrau ac amseroedd bysiau os bydd angen gwneud hynny i fodloni anghenion teithio'n effeithlon. Ni ellir gwarantu dyraniad seddi, ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i symud disgyblion rhwng cerbydau neu ail-gyfeirio cerbydau er mwyn rheoli llwythi.

Os bydd mwy o deuluoedd eisiau seddi rhatach nag sydd yna o seddi ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr Sir y Fflint cyn ymgeiswyr y tu allan i'r Sir ac o fewn pob categori, bydd plant o oed ysgol statudol yn cael eu hystyried o flaen myfyrwyr ôl-16, Yna, bydd ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu yn ôl y meini prawf canlynol, yn y drefn ganlynol:

- Plant sydd eisoes yn derbyn sedd wag ratach
- Plant sydd â brawd neu chwaer sydd eisoes yn teithio ar y cerbyd
- Plant lle nad oes cludiant cyhoeddus arall ar gael iddynt deithio i'r ysgol
- Ar sail y pellter mewn llinell syth o gyfeiriad cartref y plant i'r ysgol, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rheiny sy'n byw bellaf o'r ysgol

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y cyntaf i'r felin, a phan nad yw'n bosib cynnig sedd ar y cerbyd, bydd rhieni'n cael eu hysbysu bod enw eu plentyn ar restr aros. Os oes yna lwybr addas, ond dim lle, bydd seddi rhatach yn cael ei gwerthu ar y rhagdybiaeth bod y plentyn yn teithio 5 diwrnod bob wythnos. Os bydd seddi gwag ar ôl o hyd ar gerbyd ar ôl i'r ceisiadau am seddi 5 diwrnod yr wythnos gael eu prosesu, gellid ystyried seddi rhatach am ran o'r wythnos yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, lle bydd sedd ratach ar gael am ran o'r wythnos yn unig, gellir tynnu'r sedd ratach yn ei hôl os ceir cais gan blentyn arall i deithio 5 diwrnod yr wythnos os na fydd riant y plentyn presennol eisiau cynyddu eu sedd ratach i 5 diwrnod.

Wrth gael eu hystyried am sedd ratach, naill am 5 diwrnod yr wythnos neu am ran o'r wythnos, rhaid i rieni ymrwymo i hanner tymor o deithio o leiaf, ac ni fydd newidiadau ad hoc i'r trefniadau teithio yn cael eu hystyried o fewn y cyfnod hwnnw.

Mae adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r rhwydwaith, a all arwain at dynnu lleoedd gwag yn ôl. Wrth werthu seddi rhatach, bydd y Cyngor yn egluro i rieni y byddant yn cael pythefnos o rybudd os bydd y sedd ratach yn cael ei thynnu yn ei hôl.

Mae POB sedd yn cael ei dyrannu ar sail pythefnos o rybudd. Gall y cyfnod rhybudd gynnwys penwythnosau, gwyliau banc a chyhoeddus a gwyliau'r ysgol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn bosib cynnig sedd wag nes y bydd y tymor ysgol wedi cychwyn ac y bydd y Cyngor yn cael gwybod niferoedd llawn y disgyblion cymwys fydd yn teithio.

Mae angen talu ymlaen llaw, a gellir gwneud hynny bob blwyddyn neu bob tymor. Gellir talu naill ai â siec, archeb bost, dros y ffôn, dros y we neu drwy Ddebyd Uniongyrchol.